Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

—

Welsh Parliament
**Petitions Committee**

Dai Lloyd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Chwefror 2021

Annwyl Dai

**Deiseb P-05-812 Dylid gweithredu canllawiau NICE ar gyfer trin Anhwylder Personoliaeth Ffiniol**

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi bod yn trafod y ddeiseb uchod, yn ddiweddaraf yn ein cyfarfod ar 26 Ionawr.

Gwnaethom drafod gohebiaeth lle nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er nad yw'n orfodol i sefydliadau'r GIG ddilyn canllawiau clinigol a luniodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob sefydliad ystyried canllawiau perthnasol NICE. Hefyd, nododd y Gweinidog fod NICE ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ddiweddar ac yn archwilio opsiynau i ystyried gweithredu canllawiau NICE yn fwy systematig fel rhan o'r broses arolygu.

Yn sgil hyn, gwnaethom gytuno i ysgrifennu atoch i ofyn a yw'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon wedi gwneud gwaith craffu ar weithredu canllawiau NICE yng Nghymru, neu a fyddai hwn yn faes y byddech yn ystyried argymell bod angen efallai i'ch pwyllgor olynol edrych arno eto yn y Chweched Senedd.

Hefyd, wrth ysgrifennu atoch, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ar hyn o bryd.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan: https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=21491&Opt=3.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy'r cyfeiriad e-bost uchod, neu drwy ffonio 0300 200 6454.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDeisebau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPetitions@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir

Janet

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd


**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDeisebau@senedd.cymru

0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddPetitions@senedd.wales

0300 200 6565